O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 756 (Cy. 118)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol y Bont, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau ar Aros Dros Dro) 2011

Gwnaed *10 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *14 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol y Bont, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau ar Aros Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

mae i "bathodyn person anabl" *("disabled person's badge")* yr ystyr a roddir yn Rheoliad 2 o Reoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau i Gerbydau Modur) (Cymru) 2000**(3)**;

mae i "disg parcio" *("parking disc")* yr ystir a roddir yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000**(4)**.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg parcio yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(1)(a), (c), (ch), (d), ac (dd), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar unrhyw adeg ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri